GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

# Hysbysiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol 20/20

## 28 Medi 2020

**I'w weithredu gan y canlynol:**
Cyfarwyddwyr Ystadau/Cyfleusterau

**Er gwybodaeth yn unig:**
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Copi i'r canlynol: Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Annwyl Gydweithiwr,

## COVID-19 a Chapasiti Ocsigen Meddygol, Storio ar y Safle a Systemau Dosbarthu Pibellau yn GIG Cymru

### Cyflwyniad

Rhoddodd y don gyntaf o COVID-19 bwysau digynsail ar seilwaith ocsigen sy'n hanfodol i fywyd ledled y DU. O ganlyniad, yn fuan iawn daeth y galw gan ddarparwyr gofal iechyd lleol am beiriannau ac offer ocsigen yn anghynaladwy i'r nifer cyfyngedig o gyflenwyr sydd yn y farchnad.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, mabwysiadodd pedair gweinyddiaeth y DU rôl fwy gweithredol wrth gydlynu a blaenoriaethu ceisiadau am gynhyrchion ocsigen i'r farchnad er mwyn sicrhau dosbarthiad teg o'r peiriannau a'r offer sydd ar gael.

Roedd y dull, er gwaethaf nifer o heriau mawr, yn llwyddiannus a gwnaed cynnydd sylweddol o ran gwella capasiti llif ocsigen ar draws Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau a bu cynnydd o 75% yn y ddarpariaeth ocsigen ar draws GIG Cymru.

Serch hynny, mae gwelliannau pellach y gellir eu gwneud o hyd i gryfhau'r seilwaith ocsigen ac mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Wasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC gymryd y rôl arweiniol wrth gydlynu'r gwaith hwn.

Mae cydweithwyr yn NHS England yn ymgymryd â rôl debyg trwy rôl Arweinydd Ystadau Rhanbarthol (Ocsigen) ac, er mwyn sicrhau cysondeb i'r farchnad, bydd Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC yn mabwysiadu'r gyfundrefn enwau hon.

Bwriedir i rôl Arweinydd Ystadau Rhanbarthol (Ocsigen) weithredu am gyfnod penodol i ddelio'n benodol â heriau COVID-19.

**Y Tîm**

Mae tîm Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC sy'n ymwneud â'r gwaith hwn fel a ganlyn:

1. Neil Davies, Cyfarwyddwr ac Arweinydd Ystadau Rhanbarthol (Ocsigen)
2. Simon Russell, Pennaeth Peirianneg:
3. Chris East, Peiriannydd Awdurdodi (Systemau Piblinellau Nwy Meddygol)

**Camau Nesaf**

Un o ofynion allweddol y swydd yw gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth i ddeall eich anghenion yn llawn a chynigir sefydlu Bwrdd Cyflenwi Ocsigen Ystadau gyda chynrychiolaeth o'r holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau.
Bydd y Bwrdd yn cefnogi'r Arweinydd Ystadau Rhanbarthol (Ocsigen) i nodi, cynllunio a monitro'r broses o gyflawni gwelliannau yn y seilwaith ocsigen sy'n hanfodol i fywyd wrth baratoi ar gyfer cynnydd mewn achosion o COVID-19 yn y dyfodol.
Ceir rhestr lawn o weithgareddau'r Arweinydd Ystadau Rhanbarthol (Ocsigen) ynghlwm yn Atodiad 1.

**Camau Gweithredu**
A wnewch chi gwblhau a dychwelyd y profforma atodedig yn enwebu cynrychiolydd eich sefydliad ar gyfer y Bwrdd Cyflenwi Ocsigen Ystadau erbyn dydd Llun 5 Hydref.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â Neil Davies, Cyfarwyddwr ac Arweinydd Ystadau Rhanbarthol (Ocsigen) ar 029 2090 4117 neu Neil.Davies4@wales.nhs.uk.

Yr eiddoch yn gywir,



**NH Davies BSc (Anrh), Dip Proj Man (RICS), MBA, MCIOB, FIHEEM**

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol**

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC, Trydydd Llawr, Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UB**

**Enwebiad ar gyfer y Bwrdd Cyflenwi Ocsigen Ystadau**

Dylid cynnwys uchafswm o gynrychiolydd a dirprwy

| Enw'r Sefydliad | Enwebai | Swydd yn y Sefydliad | Cyfeiriad e-bost: | Rhif Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

Cynigydd

Llofnod:

Dychwelwch eich enwebiad erbyn dydd Llun 5 Hydref 2020 i Mr Neil Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, drwy Neil.Davies4@wales.nhs.uk neu i'r cyfeiriad isod.
3ydd Llawr
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd
CF14 3UB

**ATODIAD 1**

**Arweinydd Ystadau Rhanbarthol (Ocsigen)**

**Gweithgareddau**

Rheoli darpariaeth ocsigen

1. Adeiladu ar y perthnasoedd da sydd wedi'u sefydlu gyda'r Adran Iechyd yn ystod cam cyntaf y gwaith, yn enwedig yng nghyd-destun cynllunio tymor canolig, i helpu cydgysylltu ar draws gweinyddiaethau yn ogystal â thegwch darpariaeth a mynediad.
2. Cydlynu ac adolygu ceisiadau ar gyfer offer ocsigen a pheiriannau gan Fyrddau Iechyd a darparu arfarniadau technegol manwl i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r broses flaenoriaethu.
3. Gweithio'n agos gyda Byrddau Iechyd i helpu i sicrhau bod ceisiadau cymeradwy yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus i fynd i'r afael â cham nesaf y cynllunio.
4. Parhau i weithio gyda BOC i helpu i sicrhau bod unrhyw beiriannau ocsigen ychwanegol sydd eu hangen i wella'r rhwydwaith ar gael a’u bod yn cael eu cyflwyno o fewn yr amserlen ofynnol.
5. Cefnogi Gwasanaethau Caffael PCGC gydag adolygiad o'r farchnad ocsigen wrth adnewyddu contract BOC i benderfynu a yw ehangu'r sylfaen cyflenwyr yn realistig a/neu'n ddymunol.

Llywodraethu Peirianneg Lleol

6. Cynghori a chefnogi Byrddau Iechyd i helpu i sicrhau bod lefelau adnoddau peirianneg priodol ar gael, a rhoi pwyslais arbennig ar Bersonau Cymeradwy.
7. Annog clinigwyr a chynllunwyr gofal iechyd i wahodd uwch weithwyr proffesiynol ystadau a pheirianneg i gyfrannu pan fydd cynllunio gofal iechyd manwl yn cael ei ddatblygu ar gyfer y cam cynllunio nesaf.

Ocsigen Meddygol

8. Cynnal cofrestr fanwl o beiriannau ocsigen ar draws GIG Cymru, gan gynnwys systemau wrth gefn cynradd, eilaidd a thrydyddol.
9. Annog Byrddau Iechyd i gynnal profion llwyth ar systemau dosbarthu pibellau presennol i bennu colledion cyfradd llif.
10. Ystyried datblygu model capasiti llif/pwysedd ocsigen ar gyfer GIG Cymru gan gynnwys monitro ac adrodd ar ddefnydd amser real i ganiatáu tryloywder ac uwchgyfeirio cyflym.
11. Sefydlu Bwrdd Cyflenwi Ocsigen Ystadau COVID-19 Cymru Gyfan. Bydd y Bwrdd yn cefnogi'r Arweinydd Ystadau Rhanbarthol (Ocsigen) i nodi, cynllunio a monitro'r broses o gyflawni gwelliannau yn y seilwaith ocsigen sy'n hanfodol i fywyd wrth baratoi ar gyfer cynnydd mewn achosion o COVID-19 yn y dyfodol.

Yn ogystal, bydd yr Arweinydd Ystadau Rhanbarthol yn rhannu unrhyw ganllawiau ystadau cysylltiedig y bernir eu bod yn briodol.

**Trefniadau adrodd:**

Bydd Gwasanaethau Ystadau Arbenigol PCGC yn adrodd i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd, gan fanylu ar werthuso ceisiadau'r Byrddau Iechyd, er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru bennu rhestr flaenoriaethu, i fwrw ymlaen gyda chynigion cymeradwy a diweddariadau ar wella capasiti cyffredinol y system.

**Noder**

Ni fydd yr Arweinydd Ystadau Rhanbarthol yn gyfrifol am unrhyw agwedd ar fodelu lledaeniad ac effaith COVID 19 nac am ddarparu cyngor ar y llwybrau clinigol i gefnogi triniaeth cleifion sydd â COVID-19.

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

# Specialist Estates Services Notification 20/20

## 28 September 2020

**For action by:**
Directors of Estates/Facilities

**For information only:**
Chief Executives, NHS Health Boards and Trusts

Copy to: Department of Health and Social Care, Welsh Government

Dear Colleague

## COVID 19 and Medical Oxygen Capacity, Site Storage and Pipework Distribution Systems in NHS Wales

### Introduction

The first surge of COVID-19 placed unprecedented pressure on life critical oxygen infrastructure across the UK. Consequently the demand from local healthcare providers for oxygen plant and equipment quickly became unsustainable for the limited suppliers in the market.

To help deal with this issue all four UK administrations adopted a more active role in the coordination and prioritisation of requests for oxygen products to the market to ensure a fair and equitable distribution of the available plant and equipment.

The approach, despite a number of major challenges, was successful and significant progress was made in improving the oxygen flow capacity across Health Boards and Trusts with a 75% increase in oxygen provision being achieved across NHS Wales.

Nevertheless there are still further improvements that can be made to strengthen the oxygen infrastructure and the Welsh Government has asked NWSSP-Specialist Estates Services to take the lead role in coordinating this activity.

A similar role is undertaken by colleagues in NHS England through the role of Regional Estates Lead (Oxygen) and to provide consistency to the market, NWSSP-SES will adopt this nomenclature.

The role of Regional Estates Lead (Oxygen) is intended to be time limited to deal specifically with the challenges of COVID-19.

## The Team

NWSSP-SES' team involved in this work are as follows:

1. Neil Davies, Director and Regional Estates Lead (Oxygen)
2. Simon Russell, Head of Engineering
3. Chris East, Authorising Engineer (Medical Gas Pipeline Systems)

## Next Steps

A key requirement of the post is to work closely with the Service to fully understand your needs and it is proposed that an Estates Oxygen Delivery Board is established with representation from all Health Boards and Trusts.
The Board will support the Regional Estates Lead (Oxygen) with the identification, planning and monitoring of the delivery of improvements in the life critical oxygen infrastructure in preparation of future COVID-19 surges.
A full list of the activities of the Regional Estates Lead (Oxygen) is attached as Appendix 1.

## Action

Can you please complete and return the attached pro forma nominating your organisation's representative for Estates Oxygen Delivery Board by Monday 5th October.

Should you require any further information please contact Neil Davies, Director and Regional Estates Lead (Oxygen) on 029 2090 4117 or Neil.Davies4@wales.nhs.uk.

Yours sincerely,



**NH Davies BSc (Hons), Dip Proj Man (RICS), MBA, MCIOB, FIHEEM**

**Director Specialist Estates Services**

**NWSSP Specialist Estates Services, 3rd Floor, Companies House, Crown Way, Cardiff CF14 3UB**

## Estates Oxygen Delivery Board Nomination

Place include a maximum of a representative and a deputy

| Organisation Name | Nominee | Organisational Position | E-mail address | Contact Number |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

Proposer:

Signed:

Please return your nomination by Monday 5th October 2020 to Mr Neil Davies, Director of Specialist Estates Services, NHS Wales Shared Services Partnership, via Neil.Davies4@wales.nhs.uk or to the address below.

3rd Floor
Companies House
Crown Way
Cardiff
CF14 3UB

**APPENDIX 1**

**Regional Estates Lead (Oxygen)**

**Activities**

Managing oxygen provision

1. Build on the good relationships that have been established with the Department of Health through the first phase work, particularly in the context of medium term planning, to help coordination across administrations as well as equity of provision and access.
2. Coordinate and review requests for oxygen equipment and plant from Health Boards and provide detailed technical appraisals to the Welsh Government to support the prioritisation process.
3. Work closely with Health Boards to help ensure approved requests are delivered successfully to address the next phase of planning.
4. Continue to work with BOC to help ensure that any additional oxygen plant required to enhance the network is available and scheduled for completion within the required timeframe.
5. Support NWSSP-Procurement Services with a review the oxygen market at BOC contract renewal to determine whether expanding the supplier base is realistic and/or desirable.

Local Engineering Governance

6. Advise and support Health Boards to help ensure appropriate engineering resource levels are in place, with particular emphasis on Approved Persons.
7. Encourage clinicians and healthcare planners to invite senior estate and engineering professionals to contribute when detailed healthcare planning is being taken forward for the next planning phase.

Medical Oxygen

8. Maintain a detailed register of oxygen plant across NHS Wales, including primary, secondary and tertiary back-up systems.
9. Encourage Health Boards to undertake load testing of existing pipework distribution systems to determine flow rate losses.
10. Consider the development of an oxygen flow/pressure capacity model for NHS Wales including real-time usage monitoring and reporting to allow transparency and rapid escalation.
11. Establish an All-Wales COVID 19 Estates Oxygen Delivery Board. The Board will support the Regional Estates Lead (Oxygen) with the identification, planning and monitoring of the delivery of improvements in the life critical oxygen infrastructure in preparation of future COVID-19 surges.

In addition, the Regional Estates Lead will disseminate any associated estates guidance material deemed appropriate.

**Reporting Arrangements**

NWSSP-SES will provide regular report to the WG, detailing the evaluation of Health Board requests to allow WG to determine a prioritisation list, progress on approved

bids and updates on improvement in the overall capacity within the system

**Note**

The Regional Estates Lead will not be responsible for any aspect of modelling the spread and impact of COVID 19 or for providing advice on the clinical pathways in support of the treatment of COVID 19 patients.